PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

CYSWLLT RHIENI CYMRU
PARENTS CONNECT WALES

# Syniadau ar gyfer casglu barn **rhieni**



**Dyma rai dulliau poblogaidd mae Cyswllt Rhieni Cymru wedi'u defnyddio i gasglu barn rhieni, a pheth adborth ar y dulliau hynny.**

## Arolygon



**Rhestr o gwestiynau agored a chaeedig i gasglu barn.**


• Cwmpas eang • Ar-lein neu ar bapur yn bosibl • Cost isel • Hawdd rhannu ar WhatsApp, Facebook a chyfryngau cymdeithasol eraill • Modd gofyn cwestiynau syml a manwl • Modd casglu gwybodaeth ddemograffig



## Polau Piniwn

**Dull cyflym o sicrhau ciplun o farn pobl ar bwnc penodol.**

• Cwmpas eang • Ar-lein fel arfer • Cipolwg cryno ar y pwnc • Hawdd a chyflym i'w cwblhau • Cost isel • Gall rhieni rannu barn yn ddienw a diymdrech • Mae'r canlyniadau'n hawdd eu dadansoddi



## Cystadleuaeth Ffotograffau

**Cyflwynir ffotograffau i gasglu dealltwriaeth neu gipolwg gweledol ar bwnc penodol.**

• Hawdd a syml i rieni, sy'n gallu tynnu lluniau ar eu ffôn • Cost isel • Casglu mewnwelediad unigryw, dwfn • Hygyrch • Difyr, creadigol ac yn cynnal diddordeb • Modd creu arddangosfa o'r ffotograffau • Rhaid sicrhau cydsyniad ar gyfer ffotograffau




## Grwpiau ffocws

**Dod â grŵp bach o bobl ynghyd a hwyluso trafodaeth grŵp i gael mewnwelediad trwy sgwrsio a gofyn cwestiynau penodol.**

• Gallu casglu meddyliau manwl a mewnwelediad personol • Rhyngweithio wyneb yn wyneb • Hygyrch • Cwmpas ac ymatebion ar raddfa lai • Amser a lle i rannu ymatebion • Cost yn gysylltiedig • Angen staff wedi'u hyfforddi i'w cynnal

## Gweithdy Celf



**Gweithgareddau Celf er mwyn sicrhau dealltwriaeth weledol neu fewnwelediad i bwnc penodol.**

• Profiad creadigol, sy'n rhoi boddhad • Ffordd fyfyrgar o rannu dealltwriaeth fanwl a phrofiadau • Rhyngweithio wyneb yn wyneb • Hygyrch • Mae modd creu arddangosfa gelf i greu ymdeimlad o falchder • Cost ynghlwm wrth hyn • Angen staff wedi'u hyfforddi, lleoliad a chyfarpar • Cwmpas/ymatebion ar raddfa lai

## Ystyriaethau

- Cadw'r wybodaeth yn gryno ac yn syml
- Cynnig fersiynau papur/wedi'u hargraffu os bydd angen
- Cynnig cymhelliad dros gymryd rhan
- Darparu cwestiynau hawdd eu darllen mewn ieithoedd cymunedol allweddol (Pwyleg, Wrdw, Romaneg, Bangla ac Arabeg)

## Yn y grwpiau

- Darparu'r adnoddau angenrheidiol
- Cynnwys plant
- Cynnig lluniaeth
- Cyfuno'r ymgynghoriad â gweithgaredd llesiant (bore coffi, dosbarth ymarfer corff neu weithgaredd crefftau)